# MARSH, RICHARD (1710?-1792), llyfrwerthwr ac argraffydd yn Wrecsam

**Enw:** Richard Marsh
**Dyddiad geni:** 1710?
**Dyddiad marw:** 1792
**Priod:** Mary Marsh (née Hurst)
**Plentyn:** John Marsh
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llyfrwerthwr ac argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Priododd, 12 Chwefror 1746-7, Mary Hurst, Wrecsam; disgrifir y priodfab yng nghofnod y briodas yn ' writing master.' Yr oedd yn gwerthu llyfrau yn 1753; yn 1756-7 yr oedd yn un o wardeiniaid plwyf Wrecsam. Dywed A. N. Palmer (*Hist. of Wrexham*) a William Rowlands (*Llyfryddiaeth y Cymry*) iddo ddechrau argraffu cyn hynny, eithr dangosodd Ifano Jones (*Hist of Printing and Printers in Wales*) nad oes enghreifftiau dyddiedig o'i waith hyd 1772; e.e. *Cyfarwyddiad i Fesurwyr* a *Cydymaith i'r Allor*. Argraffodd lawer o lyfrynnau a baledi. Bu farw 24 Mai 1792 a'i gladdu ym mynwent eglwys Wrecsam.

Dilynwyd ef gan ei fab, JOHN MARSH (1747 - 1795), a oedd yn grefftwr celfydd. Y mae'n debyg i'r mab fod yn cynorthwyo'r tad am rai blynyddoedd cyn i hwnnw farw; e.e. fe'i ceir yn rhoddi tystiolaeth yn y cyngaws cyfreithiol yn erbyn W. Davies Shipley, deon Llanelwy, yngl n â chyhoeddi pamffledyn, 1783. Dwy enghraifft o waith argraffu da a wnaethpwyd gan John Marsh ydyw Philip Yorke, *Tracts of Powys*, 1795, a William Griffiths, *Practical Treatise on Farriery* (ail arg. 1795). Fel ei dad o'i flaen, bu yntau'n gwasnaethu fel warden 1794-5. Bu farw 11 Hydref 1795 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Wrecsam.

Dygwyd y busnes ymlaen gan M. a S. MARSH, a argraffodd lyfr John Thomas, *Annerch Ieuengctyd Cymru*, yn 1795. Cyn pen y flwyddyn honno, fodd bynnag, daethai'r busnes yn eiddo John Painter.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddwyd eisoes ychwaneger J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 95351331

Wikidata: Q20734294

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu